# CYNGOR
# BWRDEISTREF SIROL CONWY

# TRAMFFORDD Y GOGARTH

# IECHYD A DIOGELWCH

# CANLLAWIAU CYN YMWELIAD AC ASESIAD RISG AR GYFER GRWPIAU A DREFNWYD

Ionawr 2024

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY**

**TRAMFFORDD Y GOGARTH**
**IECHYD A DIOGELWCH -**

*This document is also available in English*
*Mae fersiynau print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen ar gael drwy gais.*

**CANLLAWIAU CYN YMWELIAD**
**AR GYFER GRWPIAU A DREFNWYD**

Dylid darllen y wybodaeth ganlynol ar y cyd â’r Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch. Caiff ei ddarparu i helpu sicrhau bod eich ymweliad yn un diogel a phleserus:-

- Mae **Tramffordd y Gogarth** yn system drafnidiaeth dreftadol sy'n rhan o seilwaith cludiant cyhoeddus y Gogarth.

- Mae'n cynnig gwasanaeth 20 munud o hyd rhwng 10am a 6pm bob dydd.

- Ni allwn neilltuo’r system ar gyfer grwpiau yn unig a gofynnwn iddynt fod yn ystyriol o aelodau'r cyhoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

- Ni allwn warantu union amseroedd gan fod y Dramffordd yn cynnig gwasanaeth rheolaidd sy’n agored i’r cyhoedd yn gyffredinol. Bydd grwpiau a drefnwyd yn cael blaenoriaeth ar gyfer y slot amser y maent wedi’i archebu. Bydd gwasanaethau ychwanegol yn cael eu cynnig os bydd angen.

- Mae yna le i 48 o deithwyr eistedd ar bob tram ac ni chaniateir sefyll. Os oes yna fwy na 48 mewn grŵp, bydd yn cael ei rannu.

- Rhaid i bob aelod o'r grŵp gael eu goruchwylio gan arweinydd y grŵp wrth deithio ar y tram ac wrth aros yn un o'r gorsafoedd.

- Mae ochrau’r cerbydau yn rhannol agored a gall y gwasanaeth gael ei atal ar fyr rybudd mewn tywydd gwael am resymau diogelwch. Bydd cludiant amgen yn cael ei gynnig.

- **Peidiwch â phwyso allan o’r cerbyd.**

- Dilynwch gyfarwyddiadau’r cymhorthydd tramiau i fynd ar y tram a dod oddi arno.

- Os bydd rhywbeth yn tarfu ar y gwasanaeth, dilynwch gyfarwyddiadau’r cymhorthydd tramiau.

- **Ni chaniateir ysmygu ar y tram nac o fewn unrhyw un o Adeiladau Tramffordd y Gogarth.**

- Mae’r Dramffordd wedi’i rhannu'n ddau ran ar wahân:- **Y rhan isaf -** Gorsaf Fictoria **i’r** Orsaf Hanner Ffordd; **Y rhan uchaf –** Yr Orsaf Hanner Ffordd **i** Orsaf y Copa.

Mae dau gerbyd tram yn teithio ar bob rhan ar y tro – un yn teithio i fyny a’r llall yn teithio i lawr. Rhaid i deithwyr newid tram yn yr Orsaf Hanner Ffordd.

## Y Rhan Isaf

### Gorsaf Fictoria
Mae'r brif fynedfa ar y palmant wrth gyffordd Church Walks ac Old Road, a gallwch ei chyrraedd drwy ddringo grisiau i gyrraedd platfform palmantog. Darperir mynediad i gadeiriau olwyn yn y fynedfa uchaf gyferbyn â thafarn y King's Head.

Mae'r canopi uwchben yr Orsaf yn cysgodi'r platfform rhag y glaw, ond gall yr ardal fod yn llithrig mewn tywydd gwlyb. Mae yna dwll/ffos tua 1.5 metr o ddyfnder wrth ymyl y platfform – mae hwn, a'r marciau sy'n nodi ymyl y platfform, i'w gweld yn amlwg.

Gofynnwn i chi gymryd gofal dyledus yn yr orsaf a'r ardal gyfagos, a sicrhau bod aelodau'r grŵp yn cadw'n glir o ymyl y platfform.

### Y Trac

Mae'r trac yn rhedeg ar y briffordd gyhoeddus o Orsaf Fictoria hyd at gyffordd a elwir yn Black Gate. Mae'r ffordd hon yn destun cyfyngiadau traffig yn ystod oriau gwaith y Dramffordd. O'r Black Gate, mae'r trac yn rhedeg ar balmant wrth ymyl y briffordd hyd at groesffordd a elwir yn Fynedfa'r Ffarm. Mae'r pellter byr o Fynedfa'r Ffarm i'r Orsaf Hanner Ffordd yn mynd drwy gefn gwlad agored.

Mae'r system tynnu â rhaff sy'n gweithredu'r tram wedi'i gorchuddio o dan y trac; yr unig le y mae i'w gweld yw drwy slot 40mm hanner ffordd rhwng y cledrau a gorchuddion siambr haearn ar y trac caeedig.

### Yr Orsaf Hanner Ffordd

Mae'r orsaf hon allan yng nghefn gwlad. Er nad oes unrhyw rwystrau corfforol, mae cerddwyr yn cael eu cynghori i gyrraedd yr orsaf ar hyd y llwybr troed o'r briffordd i'r platfform sy'n gwasanaethu'r rhan uchaf. Mae'r platfform yn yr orsaf hon ar yr un lefel â'r trac. Mae canopïau uwchben yn cynnig rhywfaint o gysgod rhag y tywydd, ond mae'r platfform yn gwlychu mewn gwynt a glaw. Mae'r ddau blatfform wedi eu cysylltu gan lwybr cyhoeddus drwy adeilad yr orsaf. Gofynnwn i chi gymryd gofal dyledus yn yr orsaf a'r ardal gyfagos a sicrhau bod aelodau'r grŵp yn cadw'n glir o ymyl y platfform.

## Y Rhan Uchaf

**Yr Orsaf Hanner Ffordd** – fel y disgrifir uchod.

### Y Trac

Mae trac y rhan uchaf yn rhedeg drwy gefn gwlad agored o'r Orsaf Hanner Ffordd i

Orsaf y Copa.  Mae’r system dynnu wedi’i gwneud o olwynion lein dur yn cludo ceblau dur sydd yn y golwg ac wedi ei mowntio uwchlaw lefel y ddaear rhwng y cledrau.
Ni ddylai aelodau’r grŵp geisio croesi’r trac gan y gall y cebl symud heb rybudd. Mae yna fannau croesi diogel i gerddwyr yn y gyffordd tua 200 metr i’r gogleddorllewin o’r Orsaf Hanner Ffordd a hefyd i’r de-ddwyrain o Orsaf y Copa.

**Gorsaf y Copa**

Mae Gorsaf y Copa wedi’i lleoli ger Canolfan Ymwelwyr Parc Gwledig y Gogarth. Mae yna blatfform uwch yn yr orsaf a dim ond drwy’r cwrt cyfagos y gellir mynd ato. Mae’r lle braidd yn gyfyng, a dylai arweinwyr grŵp sicrhau fod y teithwyr yn cymryd gofal yn yr orsaf a’r ardal gyfagos.

| Rhif | Peryglon Posibl | Graddau risg<br><br>Cyfanswm<br>T C/D | Mesurau rheoli presennol | Camau angenrheidiol | Lefel Risg<br><br>Cyfanswm<br>T C/D | Sgôr Risg<br><br>(I/C/U) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | Teithio ar system | 1 4 4 | Rhaglen o archwiliadau diogelwch ar waith, systemau gwaith diogel ar waith.<br>Cyfarwyddiadau i deithwyr:<br>Aros ar eu heistedd drwy gydol y daith, ni chaniateir sefyll. Ni chaniateir ysmygu.<br>Peidio â phwyso allan o'r cerbyd; *os* bydd unrhyw darfu ar wasanaethau, dylid dilyn cyfarwyddiadau'r Cymhorthydd Tramiau.<br>Gweithdrefnau brys ar waith, staff wedi derbyn hyfforddiant Gweithdrefnau Gwagio<br><br>Pecynnau cymorth cyntaf ar y tramiau | Mae angen i arweinwyr sy'n goruchwylio grwpiau eistedd ar y Tram lle gallant fonitro'r rhai maent yn eu *goruchwylio yn effeithiol* | | I | *Os* bydd y system yn torri lawr, caiff teithwyr wybod am y sefyllfa.<br><br>Rhybuddion yn cael eu harddangos. |

| Rhif | Peryglon Posibl | Graddau risg<br><br>Cyfanswm<br>T C/D | Mesurau rheoli presennol | Camau angenrheidiol | Lefel Risg<br><br>Cyfanswm<br>T C/D | Sgôr Risg<br><br>(I/C/U) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | System yn torri lawr | 1 4 4 | Fel rhif 6 | | | I | Fel rhif 6 a darperir cludiant arall |
| 8 | Tram yn gwrthdaro gyda defnyddwyr eraill ar y ffordd | 1 4 4 | Gweithdrefnau brys ar waith. Staff wedi eu hyfforddi ar gyfer gweithdrefnau gwagio brys. Pecynnau cymorth cyntaf ar y tramiau. | Cydymffurfio â chyfarwyddiadau gan y Cymhorthydd Tram. | | I | |
| 9 | Tywydd gwael | 3 1 3 | Gall y gwasanaeth gael ei atal mewn tywydd gwael – yn arbennig yn yr hanner uchaf | Hysbysir teithwyr os bydd yna dywydd gwael ar y ffordd. | | I | Mae teithwyr yng Ngorsaf Tram Fictoria yn cael gwybod am y tywydd presennol ar y Gogarth. |

| Rhif | Peryglon Posibl | Graddau risg<br><br>Cyfanswm<br>T C/D | Mesurau rheoli presennol | Camau angenrheidiol | Lefel Risg<br><br>Cyfanswm<br>T C/D | Sgôr Risg<br><br>(I/C/U) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 10 | Man gwylio<br>Gorsaf Hanner Ffordd | 1 2 2 | Fel 4, gweithdrefnau tân ar waith, allanfeydd a man ymgynnull wedi eu marcio'n glir (man ymgynnull ym Mynedfa'r Fferm gyferbyn â'r grid gwartheg) | Os digwydd tân, grwpiau a drefnwyd i gydymffurfio â chyfarwyddiadau'r warden gwagio. | | I | Staff y Dramffordd wedi eu hyfforddi i roi Gweithdrefnau Gwagio ar waith pan fo tân. |
| 11 | Ymwneud â'r cyhoedd | 5 1 5 | Mae grwpiau a drefnwyd angen deall y bydd aelodau'r cyhoedd hefyd yn defnyddio Tramffordd y Gogarth. | I osgoi amharu ar y cyhoedd, mae angen goruchwylio'r grŵp drwy'r adeg, a chyfrifoldeb arweinydd y grŵp yw hyn. | | I | Mae ymwneud â'r cyhoedd yn elfen allweddol o'r gwasanaeth a ddarperir gan Dramffordd y Gogarth; dylai grwpiau a drefnwyd gadw hyn mewn cof. |
| 12 | System dynnu â rhaff (rhan uchaf) | 2 4 8 | Mannau croesi diogel i gerddwyr wedi eu nodi yn y canllawiau sydd ynghlwm | Mae angen goruchwylio'r grŵp drwy'r adeg, a chyfrifoldeb arweinydd y grŵp yw hyn. | | I | |

Allwedd: T = **Tebygolrwydd, C/D = Canlyniad/Difrifoldeb**
**System Sgorio: 1-4 Blaenoriaeth Dibwys; 5-9 Blaenoriaeth Isel; 10-15 Blaenoriaeth Canolig; 16-25 Blaenoriaeth Uchel**

**Asesydd (Enw mewn llythrennau bras):** Luke Stevenson, Rheolwr Tramffordd **Llofnod: Dyddiad**
**a drefnwyd ar gyfer yr adolygiad nesaf:** Gorffennaf 2023